



Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democraidd
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN

Dyddiad ac Amser

4.30 y.h., DYDD IAU, 11EG GORFFENAF, 2019

Lleoliad

Canolfan Fenter Congl Meinciau, Botwnnog, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8RA

Pwynt Cyswllt

Bethan Adams

01286 679020

BethanAdams@gwynedd.llyw.cymru

(DOSBARTHWYD: 3/7/19)

CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN

AELODAETH

Cynghorwyr Gwynedd

**Anwen Davies
Simon Glyn
John Brynmor Hughes
Aled Wyn Jones
Gareth Williams**

Eraill

Enwebeion Cynghorau Cymuned Aberdaron, Buan, Botwnnog, Clynnog, Llanbedrog, Llanaelhaearn, Llanengan, Nefyn, Pistyll a Thudweiliog.

Pencampwr Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd

Enwebeion yr asiantaethau/sefydliadau canlynol

**Ymddiriedolaeth Genedlaethol,
Cyfoeth Naturiol Cymru,
Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor,
Cyfeillion Llŷn,
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr,
Undeb Amaethwyr Cymru,
Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn,
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig/CPRW,
Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd,
Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn.**

R H A G L E N

1. CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd am y flwyddyn 2019/20.

2. IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd am y flwyddyn 2019/20.

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

5. MATERION BRYD

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw bryd ym marn y Cadeirydd.

6. COFNODION

4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2018, fel rhai cywir.

7. PROSIECT AWYR DYWYLL GOGLEDD CYMRU

I dderbyn cyflwyniad gan Dani Robertson.

8. RHAGLEN DDIGWYDDIADAU GWASANAETH AHNE LLŶN

9 - 10

Cyflwyno adroddiad Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn.

9. PROSIECTAU YN AHNE LLŶN

11 - 12

Cyflwyno adroddiad Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn.

10. DIWEDDARIAD AR Y GRONFA DATBLYGU CYNALIADWY

13 - 15

Cyflwyno adroddiad Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn.

11. MATERION CENEDLAETHOL

16 - 17

Cyflwyno adroddiad Swyddog AHNE Llŷn.

CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL LLŶN 20/11/18

Yn bresennol:

Morgan Jones-Parry (Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor) (Cadeirydd)
Y Cyngorydd Gareth Williams (Cyngor Gwynedd) (Is-Gadeirydd)

Aelodau: Noel Davey (Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig), Brett Garner (Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn), Andy Godber (Ymddiriedolaeth Genedlaethol), John Gosling (Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn), Jina Gwyrfaï (Cyngor Cymuned Llanaelhaearn), T. Victor Jones (Cyngor Cymuned Llanbedrog), Sian Parri (Cyngor Cymuned Tudweiliog), Sianelen Fleming (Cyngor Cymuned Pistyll), Alun Price (Cyfoeth Naturiol Cymru), Glyn Roberts (Cyngor Cymuned Botwnnog), Cyngorydd Angela Russell (Pencampwr Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd) a Gruffydd Williams (Cyngor Tref Nefyn).

Swyddogion: Bleddyn P. Jones (Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn), Wyn Williams (Rheolwr Cefn Gwlad a Mynediad), Rhys Roberts (Swyddog Prosiect Llwybr Arfordir – ar gyfer eitem 5 ar y rhaglen) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Ymddiheuriadau: Y Cyngorwyr Anwen Davies, Simon Glyn, John Brynmor Hughes a Aled Wyn Jones (Cyngor Gwynedd) ynghyd â Gillian Walker (Cyfeillion Llŷn).

1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

2. MATERION BRYN

Nid oedd unrhyw fater brys.

3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cyd-Bwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2018, fel rhai cywir, yn ddarostyngedig i gywiro paragraff 5 ar dudalen 5 ar y rhaglen i ddarllen:

"Holodd aelod faint oedd cyfanswm hyd gwifrau **danddaear** yn yr AHNE. Mewn ymateb, nododd cynrychiolydd SP Energy Networks mai cyfran fechan o'r rhwydwaith cyflawn oedd **danddaear**. Ychwanegodd y canolbwytir ar yr ardaloedd mwyaf ymarferol o ran tanddaearu gwifrau trydan."

4. LLWYBR ARFORDIR CYMRU

Derbyniwyd cyflwyniad gan Swyddog Prosiect Llwybr Arfordir. Manylodd ar brosiect Llwybr yr Arfordir, gan nodi bod tair elfen i'r prosiect, sef cynnal a chadw, uwchraddio a datblygu. Nododd yn dilyn derbyn cyllid gan Gronfa Cymunedau'r Arfordir sefydlwyd 18 cylchdaith o'r Llwybr Arfordir. Eglurodd bod cyllid ar gyfer y prosiect dan o leiaf 2021 ac os oedd gan unrhyw aelod sylw neu awgrym y dylent anfon e-bost at LlwybrArfordir@gwynedd.llyw.cymru.

Nododd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn bod y Gwasanaeth AHNE wedi cynnal sawl taith gerdded ar y cylchdeithiau. Tynnodd sylw bod taflen wybodaeth am y cylchdeithiau ar gael.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau roi sylwadau a gofyn cwestiynau, nodwyd y prif bwyntiau canlynol gan aelodau:

- Balch bod arian ar gael i gynnal a chadw'r Llwybr Arfordir;
- Oedd yr arian grant ar gyfer y cylchdeithiau yn ogystal?
- A oedd mwy o waith i wneud yn ardal Bwlch Mawr;
- Longyfarch y swyddog am ei waith. Roedd O Ddrws i Ddrws yn chwarae eu rhan hefyd o ran llwyddiant y Llwybr Arfordir gyda'r Bws Arfordir yn rhedeg yn ystod yr haf. Faint o ddefnydd y gwneir o'r Llwybr Arfordir?
- A oedd ychwanegu darnau newydd o dir at Llwybr yr Arfordir yn anodd?
- Nad oedd rhai darnau o dir yn ardal Clynnog a Trefor wedi eu cynnwys fel rhan o'r Llwybr Arfordir. Roedd deddf yn Lloegr a oedd yn gorfodi bod tir yn mynd yn rhan o'r Llwybr Arfordir ond fe negodir yng Nghymru.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd y swyddogion:

- Derbyniwyd grant gan Lywodraeth Cymru o oddeutu £100,000 yn flynyddol ers 2015 ar gyfer datblygu Llwybr yr Arfordir a chostau staffio;
- Cyfrifoldeb y Cyngor oedd ariannu'r cylchdeithiau;
- Bod y mân waith ym Mwlch Mawr wedi'i gwblhau yn bennaf gyda mwyafrif y gwaith o ran arwyddion;
- Bod cownteri wedi'u claddu yn y tir yn cyfri'r nifer o bobl oedd yn defnyddio'r Llwybr. Gellir anfon y ffigyrau defnyddwyr diweddaraf at Reolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn i'w rhannu efo'r aelodau;
- Bod ychwanegu darnau newydd o dir at y Llwybr Arfordir yn bwnc llosg. Roedd tirlfeddianwyr a oedd yn ymrwymo darnau o dir i'r Llwybr Arfordir yn derbyn iawndal a thelir am eu costau cyfreithiol a chostau asiant tir. Gwneir y gwaith ffurfio'r Llwybr ac mewn rhai achlysuron fe roddir ffens yn ogystal i gadw cŵn allan o'r caeau. Roedd tirlfeddianwyr ar y cyfan yn cyd-weithredu;
- Bod trafodaeth wedi ei gynnal rhwng yr Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru cyn mabwysiadu Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, lle nodwyd y byddai gorfodaeth yn hwyluso'r broses o gwblhau Llwybr yr Arfordir. Nid oedd Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r darn yma o'r ddeddf, fel y gwnaed yn Lloegr, gyda'r ymagwedd o gael tirlfeddianwyr i brynu i mewn i'r syniad yn hytrach na gorfodi;
- Bod negodi efo tirlfeddianwyr yn gallu cymryd amser. Roedd cwblhau'r gwaith papur yn hawdd ond os oedd tirlfeddiannwr yn gwrthod roedd rhaid mynd am orchymyn. Gyda'r broses gorchymyn yn cymryd cyfnod o oddeutu blwyddyn;
- Bod 35 tirlfeddiannwr a 7 tenant yn yr ardal o Bontllyfni i Trefor, roedd yn cymryd cryn amser i negodi.

Nododd y Cadeirydd ei ddiolch i Swyddog Prosiect Llwybr Arfordir am y cyflwyniad a'i longyfarch am y gwaith.

5. DIWEDDARIAD PROSIECTAU GWASANAETH AHNE LLŶN

Cyflwynodd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn adroddiad Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn ar brosiectau'r Gwasanaeth AHNE. Eglurwyd nad oedd y Swyddog Prosiectau yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd salwch. Rhodddwyd diweddariad ar y prosiectau canlynol:

- Hyfforddiant Sgiliau Gwledig
- Gwella Mynediad

- Teithiau Cerdded.

Cyfeiriodd at y Gronfa Datblygu Cynaliadwy gan nodi mai ymysg y prosiectau a gefnogwyd yn ystod 2018/19, oedd:

- Bws Arfordir Llŷn
- Taith Tridiau Llŷn
- Eglwys Llandegwning
- Amgueddfa Forwrol Llŷn
- Tafarn yr Heliwr
- Arddangosfa Hen Luniau – Neuadd Sarn
- Cynllun Adnewyddu Neuadd Mynytho
- Gŵyl Fwyd Pwllheli.

Mewn ymateb i sylw gan aelod yng nghyswllt rhododendron ger y rhaeadr yn Gyrn Goch, eglurodd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn bod y tir dan sylw mewn perchnogaeth breifat, roedd gwaith wedi ei gwblhau gan y tîrfeidiannwr ond roedd mwy o waith i'w wneud.

PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.

6. ADOLYGIAD O'R TIRWEDDAU DYNODEDIG

Cyflwynodd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn yr adroddiad, a oedd yn rhoi diweddariad o ran yr adolygiad mewn perthynas â'r tirweddau dynodedig (Parciau Cenedlaethol a'r AHNE) yng Nghymru.

Nododd bod Hannah Blythyn AC (Gweinidog dros yr Amgylchedd), wedi cyhoeddi datganiad yng Ngorffennaf 2018, gyda'r teitl "Gwerthfawr a Chydnerth – Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol".

Eglurodd, fel dilyniant i'r datganiad, ysgrifennodd y Gweinidog at y Partneriaethau AHNE, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Gymdeithas Genedlaethol dros AHNE. Nododd ei bod yn y llythyr yn gofyn i'r sefydliadau baratoi papur ar y cyd gyda chynigion o ran cael mwy o gyfartaledd rhwng Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a'r Parciau Cenedlaethol gan ganolbwyntio ar statws, proffil ac adnoddau gan bwysleisio bod angen bod yn ymarferol a realistig o ran y cynigion.

Nododd y bu i'r sefydliadau gyfarfod, gynnal trafodaethau a pharatowyd ymateb ar y cyd. Manylodd ar y 12 cynnig a nodwyd yn yr ymateb o ran cynyddu cydraddoldeb rhwng yr AHNE a'r Parciau o ran statws, proffil ac adnoddau.

Adroddodd y bu cyfarfod efo'r Gweinidog yn yr wythnos cyn y cyfarfod yma a'i fod yn bosib y byddai cyfarfod arall i drafod ymhellach.

Nododd aelod bod trafodaethau niferus ers cyfnod cyhoeddi adroddiad yr Athro Terry Marsden a'i fod yn ymddangos bod diffyg ewyllys i ariannu.

Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn nad oedd yn or-hyderus y byddai ychwaneg o adnoddau ariannol. Ychwanegodd bod y toriadau i'r Gwasanaeth AHNE fel rhan o ymgynghoriad Her Gwynedd wedi eu hatal er mwyn aros am adroddiad Marsden. Nododd ddiolch i'r aelodau am eu cefnogaeth ar y pryd.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod o ran y cynnig i ddynodi Partneriaethau AHNE yn ymgynghorydd statudol ar faterion cynllunio, eglurodd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn nad oedd Gwasanaethau AHNE yn ymgynghorydd statudol ar hyn o bryd ac mai trefn drwy gytundeb oedd mewn lle, gyda'r Gwasanaeth yn cyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio. Ymhelaethodd os byddai'r cynnig yn dod yn weithredol y byddai'n debygol y byddai'r Cyd-Bwyllgor yn ystyried rhai ceisiadau gydag eraill wedi eu dirprwyo i swyddogion.

PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.

7. DATBLYGIAD TWRISTIAETH YM MHISTYLL

Cyflwynwyd adroddiad gan Reolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn a oedd yn nodi cefndir a hanes cynllunio safle Plas Pistyll a Fferm Pistyll, Pistyll. Nodwyd bod yr eitem ar raglen y cyfarfod ar gais y Cadeirydd yn dilyn derbyn cais gan aelod.

Nododd aelod bod y mater yn derbyn ystyriaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 13 Rhagfyr 2018. Amlygodd ei bryder bod y datblygiadau a ganiatawyd ar y safle yn wreiddiol gan y Pwyllgor Cynllunio yn 2012, wedi eu newid drwy nifer o ganiatadau cynllunio o dan hawliau dirprwyedig swyddogion gan droi yn ddatblygiadau tai haf gyda newidiadau sylweddol i'r cynllun gwreiddiol. Eglurodd bod asesiadau o ran y dirwedd ac effaith gweledol y datblygiadau wedi eu cyflwyno gan yr ymgeisydd fel rhan o'r cais yn 2012 a bod yr hyn a ganiatawyd gan swyddogion drwy ddefnyddio eu hawliau dirprwyedig yn diystyru'r hyn a nodwyd yn yr asesiadau. Nododd bod yr hyn a ganiatawyd gan y Pwyllgor Cynllunio yn ddatblygiadau eco a oedd yn gweddu i'r dirwedd. Nododd bod dyletswydd i warchod yr AHNE. Eglurodd ei fod wedi gwneud cais drwy Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio i gael barn bargyfreithiwr ar y mater gan ei fod yn fater cymhleth.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y prif bwyntiau canlynol gan aelodau:

- Bod Cyngor Cymuned Pistyll wedi gwneud cais i Brif Weithredwr y Cyngor i gael barn bargyfreithiwr ar y mater. Derbyniwyd cydnabyddiaeth o'r cais ond ni dderbyniwyd ymateb hyd yn hyn;
- Bod diffyg ymgynghori ar y ceisiadau cynllunio efallai wedi arwain at yr aelod lleol ar y pryd i fethu rhoi sylw i'r ceisiadau cynllunio;
- Bod dyletswydd ar y Cyd-Bwyllgor i edrych i mewn i'r mater a bod angen adroddiad i sicrhau bod gwersi wedi eu dysgu a ni fyddai sefyllfa o'r fath yn digwydd eto;
- Dylai aelodau'r Cyngor herio'r swyddogion, fe ddylai'r ceisiadau cynllunio fod wedi eu cyflwyno er penderfyniad y Pwyllgor Cynllunio. Rhwystredigaeth nad oedd sylwadau'r Uned AHNE ac aelodau'r Cyd-Bwyllgor yn derbyn sylw digonol;
- Ei fod yn bwysig i'r cyhoedd wybod y ffeithiau;
- Bod Cyngor Cymuned Pistyll wedi cefnogi'r cais gwreiddiol yn 2012 ond bod y datblygiadau ar y safle wedi dwysau heb i'r Cyngor Cymuned fod yn ymwybodol o'r ceisiadau;
- Bod yr aelod lleol yn gallu cyfeirio cais cynllunio i'r Pwyllgor Cynllunio er penderfyniad ond efallai nad oedd ganddynt y capasiti i wneud;
- Bod y drefn arferol o osod hysbyseb o gais cynllunio ger safle'r cais yn annigonol ac o ganlyniad bod problemau o'r fath yn codi;
- Bod y sefyllfa yn dwyn anfri ar yr AHNE a bod angen gweithredu er mwyn atal hyn rhag digwydd eto.

Holodd aelod os oedd modd defnyddio adnoddau'r Cyd-Bwyllgor neu'r Gwasanaeth AHNE i gael barn bargyfreithiwr ar y mater. Mewn ymateb, nododd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn nad oedd gan y Cydbwyllgor adnoddau a bod adnoddau'r Gwasanaeth AHNE wedi ei glustnodi mewn rhaglen waith a oedd wedi ei chytuno gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

Cynigwyd ac eiliwyd i anfon llythyr gan y Cadeirydd ar ran y Cyd-Bwyllgor at Brif Weithredwr y Cyngor yn gofyn am farn bargyfreithiwr ar y mater. Cafwyd trafodaeth ar eiriad y llythyr.

PENDERFYNWYD bod y Cadeirydd yn anfon llythyr at Brif Weithredwr y Cyngor ar ran Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn:

- (i) I ddatgan siom o ran y sefyllfa yng nghyswllt datblygiadau yn Plas Pistyll a Fferm Pistyll.**
- (ii) Bod y Cyd-Bwyllgor yn gofyn i'r Cyngor gael barn gyfreithiol gan fargyfreithiwr annibynnol sydd yn arbenigwr yn y maes ar yr achos penodol yma.**

Dechreuodd y cyfarfod am 4.30yh a daeth i ben am 6.05yh

CADEIRYDD

Eitem 8

PWYLLGOR	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
DYDDIAD	11eg Gorffennaf 2019
TEITL	Rhaglen Ddigwyddiadau Gwasanaeth AHNE Llŷn
PWRPAS	Diweddarau'r Aelodau
AWDUR	Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr wybodaeth

1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi rhaglen ddigwyddiadau'r Gwasanaeth AHNE ar gyfer y misoedd i ddod.

2.0 HYFFORDDIANT SGILIAU GWLEDIG

- 2.1 Bydd rhaglen o gyrsiau sgiliau gwledig yn cael eu cynnal eto eleni mewn cydweithrediad â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Choleg Glynllifon.
- 2.2 Mae'r cyrsiau hyn yn ddilyniant i'r rhaglen yn 2018 ble cynhaliwyd cwrs codi cloddiau ar fferm Porth Gwylan yn Nhudweiliog, a chwrs codi waliau cerrig sychion ar lethrau'r Eifl.
- 2.3 Mae'r prosiect hwn wedi ei adnabod yn nghynllun gwaith y Gwasanaeth AHNE oherwydd fod y cloddiau a'r waliau cerrig yn nodweddion mor amlwg yng nghymeriad tirlun yr ardal. Mae cofrestru ar gyfer y cyrsiau hyn yn hanfodol. Byddwn yn gyrru taflen wybodaeth yn fuan i chi yn ogystal â chynnwys gwybodaeth yn wasg.

3.0 TEITHIAU CERDDED

- 3.1 Bydd ein trydydd taith gerdded, a'r olaf am eleni yn cael ei chynnal ar Medi 29ain. Bydd John Dilwyn Williams yn arwain taith ym Mhlwyf Carnguwch.
- 3.2 Bydd y daith hon yn gylchdaith o Lithfaen, fydd rhoi cyfle i gael blas ar brosiect diweddar y Gwasanaeth yn y plwyf hwn i wella'r llwybrau. Byddwn yn ymweld ag amryw o safleoedd hanesyddol difyr fel tyddyn Llech Engan ac Eglwys Carnguwch. Mae cofrestru o flaen llaw yn hanfodol os gwelwch yn dda.

4.0 ARDDANGOSFA HANES LLEOL

- 4.1 Mewn cydweithrediad â Phwyllgor Neuadd Sarn, bydd y Gwasanaeth AHNE yn cyd-drefnu Arddangosfa yn ystod penwythnos Gŵyl y Banc mis Awst. Bydd hen luniau o'r ardal i'w gweld yn ogystal â hen greiriau amaethyddol.
- 4.2 Bydd arddangosfa arbennig hefyd ar "Hen Felinoedd Llŷn". Mae Glyn Roberts wedi cynnal ymchwil manwl dros y misoedd diwethaf a bydd canlyniad ei waith i'w weld yn y digwyddiad hwn yn ogystal â darlith.

- 4.3 Mae croeso cynnes i bawb ymweld â'r Arddangosfa, gyda'r mynediad yn rhad ac am ddim. Mae cyfle i wirfoddoli hefyd – a gellir cysylltu gyda'r Gwasanaeth AHNE i wybod mwy.

5.0 CYSTADLEUAETH FFOTOGRAFFIAETH

- 5.1 Mae ein Cystadleuaeth Ffotograffiaeth yn agored – hyd nes y dyddiad cau, Hydref 25ain. Thema'r gystadleuaeth y tro hwn yw “Mwynhau'r AHNE”.
- 5.2 Rydym wedi cydweithio gyda busnesau lleol ar gyfer sicrau gwobrau gwerth chweil – sef Glampio Coed Rhoshirwaun, Oriel Tonnau Pwllheli a Cwt Tatws.

6.0 SESIWN CODI YMWHYBYDDIAETH PLANHIGION ESTRON YMLEDOL

- 6.1 Bydd sesiwn yn cael ei chynnal dros yr haf yn ardal Trefor er mwyn codi ymwybyddiaeth am wahanol blanhigion estron ymledol yn yr AHNE. Nod y sesiwn fydd addysgu sut i adnabod gwahanol blanhigion, sut maent yn effeithio ar yr amgylchedd o'n cwmpas a sut mae mynd ati i'w gwaredu yn gyfrifol.
- 6.2 Mae ardal y traeth yn Nhrefor wedi cael ei adnabod fel lleoliad sydd gyda enghraifft o ble mae Llysiau'r Dial a Jac y Neidiwr wedi gafael ac ymledu – felly mi fydd y sesiwn yn cael ei chynnal yn y Ganolfan gydag ymweliad safle i'r traeth i ddilyn.
- 6.3 Yn cydweithio gyda ni ar y prosiect hwn, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a COFNOD (Y Ganolfan Gofnodion Amgylcheddol Leol ar gyfer Gogledd Cymru).
- 6.4 Buasem fel Gwasanaeth yn falch iawn os gallwch rannu'r wybodaeth am y digwyddiad hwn - yn enwedig os ydych yn cynrychioli Cyngor Cymuned, a'n cynorthwyo i farchnata gan fod sawl ardal yn Llŷn ble mae'r planhigion hyn yn bresennol ac yn afreolus.

7.0 DIWRNOD AWYR DYWYLL

- 7.1 Mewn cydweithrediad â Phrosiect Nos, bydd y Gwasanaeth AHNE yn rhan o ddigwyddiad yn Nant Gwrtheyrn ar Hydref 29ain i godi ymwybyddiaeth am awyr dywyll Llŷn.
- 7.2 Bydd manylion pellach yn y wasg yn fuan. Unwaith eto – croesewir gwirfoddolwyr i gynorthwyo'r digwyddiad hwn. Gellir cysylltu gyda'r Gwasanaeth AHNE am ragor o wybodaeth.

8.0 ARGYMHELLIAD

- 8.1 Gofynir i'r aelodau dderbyn yr wybodaeth uchod a rhannu ble bynnag bo modd.

Eitem 9

PWYLLGOR	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
DYDDIAD	11eg Gorffennaf 2019
TEITL	Prosiectau yn AHNE Llŷn
PWRPAS	Diweddarau'r Aelodau
AWDUR	Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr wybodaeth

1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi gwybodaeth am brosiectau diweddar y Gwasanaeth AHNE.

2.0 PROSIECT SBWRIEL MOROL

- 2.1 Er mwyn ceisio lleddfu rhywfaint at y sbwriel morol yn yr ardal ac annog mwy o ail-gylchu, mae'r Gwasanaeth wedi adnabod lleoliadau amrywiol yn yr ardal i osod biniau ail-gylchu newydd.
- 2.2 Mae'r biniau hyn yn cynnwys rhannau i ail-gylchu gwahanol ddeunyddiau yn ogystal â rhan i roi sbwriel. Rydym yn cydweithio gyda Gwasanaeth Bwrdeistrefol y Cyngor a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol er mwyn sicrhau llwyddiant y prosiect hwn.

3.0 PROSIECT MELINOEDD LLŶN

- 3.1 Dros y misoedd diwethaf, mae Glyn Roberts, Bryncroes wedi bod yn cynnal ymchwil ar ran y Gwasanaeth AHNE i hen adeiladau diwydiannol yn Llŷn. Mae'r ymchwil hwn yn cyd-fynd â pholisïau yn Nghynllun Rheoli'r AHNE (Rhan 'Amgylchedd Hanesyddol') a'r angen i adnabod, cofnodi ac asesu adnoddau hanesyddol yr ardal, gwarchod a chynnal a chodi ymwybyddiaeth amdanynt.
- 3.2 Ymunodd Glyn â stondin y Gwasanaeth AHNE yn Sioe Nefyn ddechrau mis Mai er mwyn arddangos canfyddiadau ei ymchwil. Yn ogystal hefyd – bydd ei waith i weld fel rhan o Arddangosfa arbennig yn Neuadd Sarn yn ystod penwythnos gŵyl y banc mis Awst eleni.

4.0 PLANHIGION ESTRON YMLEDOL

- 4.1 Mae'r gwaith yn parhau yn yr ardal i drin gwahanol rywogaethau ymledol. Rydym wedi bod yn cydweithio unwaith eto eleni gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i waredu'r Efwr Enfawr yn Afon Soch. Hefyd bwriedd ymgymryd â gwaith i drin Llysiau'r Dial yn ardal y traeth yn Nhrefor yn ogystal â pharatoi taflen wybodaeth.

5.0 PROSIECTAU MYNEDIAD/ GWELLA AMGYLCHEDD

5.1 Bu'r Gwasanaeth yn llwyddiannus yn ddiweddar yn sicrhau cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau mewn gwahanol ardaloedd yn Llŷn. Daeth y cyllid ar gael yn eithaf annisgwyl yn dilyn cyfle i gyflwyno ceisiadau a thrafodaeth gyda swyddogion. Bydd y cyllid hwn yn mynd tuag at:

- Welliannau i lwybrau yn ardal Cilan
- Wella mynediad i'r tir mynediad agored uwchlaw Gyrn Goch
- Arwyddion newydd ac adfer giatiau a llwybrau at Eglwys Carnguwch, Llwyndyrus
- Adfer wal gerrig sych sydd gyda'r lôn o bentref Llithfaen at dai Cae'r Nant

6.0 LLWYBR Y MORWYR

6.1 Mae'r prosiect hwn yn cynnwys gwella ac ail agor darnau o lwybr hanesyddol 10 milltir o hyd rhwng Nefyn a Llanbedrog, gan greu llwybr wedi ei arwyddo rhwng arfordir gogleddol a deheuol Penrhyn Llyn. Bydd diweddariad yn cael ei roi yn y cyfarfod.

7.0 ARGYMHELLIAD

7.1 Gofynir i'r aelodau dderbyn yr wybodaeth uchod a rhannu ble bynnag bo modd.

Eitem 10

PWYLLGOR	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
DYDDIAD	11eg Gorffennaf 2019
TEITL	Diweddariad ar y Gronfa Datblygu Cynaliadwy
PWRPAS	Diweddarau'r Aelodau
AWDUR	Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr wybodaeth

1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth i aelodau'r Cydbwyllgor am y Gronfa Datblygu Cynaliadwy – sef y gronfa grant ble mae'r pum AHNE yn derbyn swm gan Lywodraeth Cymru i gefnogi prosiectau cynaliadwy.

2.0 GWARIANT 2018-19

2.1 O'r **£55,000** oedd ar gael i'r Gronfa ar ddechrau blwyddyn ariannol 2018/19, dyrannwyd y cyfan. Hawliwyd yn llawn gan Lywodraeth Cymru ar 21ain o Fawrth 2019.

2.2 Dyma restr o'r prosiectau llwyddiannus:

Cyfeirnod	Enw Prosiect	Swm
CDC 17.3	Taith Tridiau Llŷn	£1,250
CDC 18.1	Bws Arfordir Llŷn	£22,083
CDC 18.5	Eglwys Llandegwning	£2,000
CDC 18.6	Amgueddfa Forwrol Nefyn	£2,800
CDC 18.7	Hendragarreg, Trefor	£1,580
CDC 18.8	Tafarn yr Heliwr, Nefyn	£2,890
CDC 18.9	Mynwent Eglwys Clynnog	£2,000
CDC 18.10	Gŵyl R S Thomas	£645
CDC 18.11	Sgyrsiau Hanes Lleol, Bryncroes	£610
CDC 18.12	Arddangosfa Neuadd Sarn	£660
CDC 18.13	Dôl Flodau Gwylltion Morfa Nefyn	£2,000
CDC 18.14	Gardd Plas Carmel, Anelog	£1,810
CDC 18.15	Cynllun Adnewyddu Neuadd Mynytho	£1,240
CDC 18.16	Awyr Dywyll Tirweddau Dynodedig	£3,000
CDC 18.17	Gŵyl Fwyd Pwllheli	£3,000
CDC 18.19	Prynhawn Difyr	£1,600
CDC 18.20	Glanhau Traeth Porth Neigwl	£825.76
	Hawliad Gweinyddol Gwasanaeth AHNE Llŷn	£5,006.24
		£55,000

3.0 DIWEDDARIAD AR WARIANT 2019/20

- 3.1 O'r **£55,000** oedd ar gael i'r Gronfa ar ddechrau blwyddyn ariannol 2019/20 – mae'r cyfan eisoes wedi ei glustnodi. Mae'r gwariant hwn yn cynnwys prosiectau sydd wedi eu cymeradwyo drwy'r drefn ddirprwyedig, ceisiadau sy'n parhau o 2018/19, cais wedi ei gefnogi yng nghyfarfod y Panel Grantiau ar Ragfyr 19eg 2018 (CDC 19.1) a cheisiadau a gymeradwywyd yng nghyfarfod y Panel Grantiau ar Ebrill 10fed eleni. Dyma'r crynodeb:-

Cyfeirnod	Enw Prosiect	Swm
CDC 18.6	Amgueddfa Forwrol Llŷn	£2,800
CDC 18.16	Awyr Dywyll Tirweddau Dynodedig	£3,000
CDC 18.17	Gŵyl Fwyd Pwllheli	£3,000
CDC 19.1	Siop Plas Carmel	£11,981
CDC 19.2	Taith Tridiau Llŷn	£1,500
CDC 19.3	Hafod Ceiri, Llithfaen	£5,300
CDC 19.4	Wal Mynwent Eglwys Clynnog Fawr	£4,319
CDC 19.5	Gŵyl RS Thomas, Aberdaron	£990
CDC 19.6	Ffynhonnau - Cadwch Gymru'n Daclus	£4,000
CDC 19.11	Capel Ceidio	£4,000
CDC 19.12	Tafarn yr Heliwr	£8,610
	Hawliad Gweinyddol Gwasanaeth AHNE Llŷn	£5,500
		£55,000

4.0 DIWEDDARIAD CENEDLAETHOL

- 4.1 Nid oes cadarnhad wedi ei dderbyn eto os bydd y Gronfa yn parhau tu hwnt i 2019/2020.
- 4.2 Daeth Thom Hadfield a Geraint Evans o Lywodraeth Cymru ar ymweliad yn ystod mis Mai a chafwyd cyfle i ddangos iddynt pa brosiectau sydd wedi bod yn llwyddiannus dros y misoedd diwethaf a pha brosiectau sydd ar y gweill gyda nawdd y Gronfa.
- 4.3 Aethpwyd ar ymweliad i Hafod Ceiri, Amgueddfa Forwrol Llŷn, O Ddrws i Ddrws, Tafarn yr Heliwr a Phlas Carmel ac roedd cynrychiolwyr o'r prosiectau yno i'n tywys o gwmpas.
- 4.4 Roedd yr ymweliad yn ddigwyddiad pwysig i'r Gwasanaeth AHNE gan roi cyfle i gyfleu neges gref fod y Gronfa wir yn gwneud gwahaniaeth i gymunedau Llŷn.

5.0 ARGYMHELLIAD

5.1 Gofynnir i'r aelodau dderbyn yr wybodaeth uchod.

Eitem 11

PWYLLGOR	Cyd-bwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
DYDDIAD	Gorffennaf 11eg 2019
TEITL	Materion Cenedlaethol
PWRPAS	Diweddaru Aelodau
ADRODDIAD GAN	Swyddog AHNE Llŷn
GWEITHREDIAD	Dim

1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth bellach am y sefyllfa genedlaethol mewn perthynas â'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Nghymru.

2.0 Y GWEINIDOG

2.1 Yn Nhachwedd 2017 penodwyd Hannah Blythyn AC yn Weinidog dros yr Amgylchedd gan dderbyn cyfrifoldeb dros y Parciau Cenedlaethol a'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Er y bu newid i'r gyfrifoldebau Gweinidogion yn ddiweddar mae Hannah Blythyn yn parhau yn gyfrifol am y Parciau a'r AHNE.

3.0 CYDNERTH A GWERTHFAWR

3.1 Yng Ngorffennaf 2018 cyhoeddodd y Gweinidog ddogfen: "**Gwerthfawr a Chydnerth – Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol**". Gellir gweld copi o'r datganiad llawn ar safle we Llywodraeth Cymru.

3.2 Nodir mai bwriad y datganiad yw dod â phroses Tirweddau'r Dyfodol Cymru i ben a phennu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr AHNE a'r Parciau Cenedlaethol. Mae'r datganiad yn nodi **pedwar amcan** ar gyfer y tirweddau dynodedig sef:

- Eu bod yn **Lleoedd Gwerthfawr**
- Fod ynddynt **Amgylchedd Cydnerth**
- Eu bod yn cynnal **Cymunedau Cydnerth**
- Fod Partneriaethau AHNE ac Awdurdodau'r Parciau yn mabwysiadu **Ffyrdd Cydnerth o Weithio**.

3.3 Hefyd gosodwyd 10 thema blaenoriaeth. Mae'r gofynion a'r disgwyliadau o'r Tirweddau Dynodedig yn y datganiad yn eang, amrywiol a sylweddol. Mae disgwyl iddynt weithredu ar sawl gwahanol lefel er lles yr ardaloedd a thu draw. Hefyd mae'r datganiad yn nodi y bwriad i sefydlu system adolygu a rheoli perfformiad, mesur effaith y dynodiad ac effeithiolrwydd yr ochor weinyddol.

- 3.4 Yn amlwg mae gwahaniaeth mawr rhwng Partneriaethau AHNE ac Awdurdodau'r Parciau ac felly gallu'r sefydliadau hyn i wireddu'r gofynion a wneir. Mae cyfeiriad byr at hyn yn y ddogfen gan nodi fod gwahaniaeth mewn **statws, proffil ac adnoddau** rhwng y ddau ddynodiad.

4.0 CYDRADDOLDEB GYDA'R PARCIAU CENEDLAETHOL

- 4.1 Fel y nodwyd yn y cyfarfod diwethaf bu i'r Partneriaethau AHNE, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Gymdeithas Genedlaethol gyflwyno papur ar y cyd i'r Gweinidog gyda cynigion ar gyfer cael mwy o gyfartaledd rhwng Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a'r Parciau Cenedlaethol. Roedd yr ymateb yn cyflwyno 12 cynnig fyddai yn cynyddu cydraddoldeb rhwng yr AHNE a'r Parciau o ran **statws, proffil ac adnoddau**.

- 4.2 Yn dilyn hyn cafwyd cyfarfod gyda'r Gweinidog a swyddog o Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r achos yng Nghaerdydd yn mis Tachwedd 2018.

5.0 SWYDDOGION LLYWODRAETH CYMRU

- 5.1 Diwedd 2018 bu newid mawr o ran y swyddogion yn Llywodraeth Cymru sydd yn gweithio ar faterion y Parciau a'r AHNE (Adran Tir, Natur a Choedwigaeth). Bellach mae tîm newydd o swyddogion yn eu lle.

- 5.2 Mae cyfarfod wedi ei gynnal yn mis Mai 2019 er cyflwyno pawb a chael trafodaeth ar y cynigion sydd wedi eu cyflwyno.

- 5.3 Fel cam cychwynnol mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi a chylchredeg papur gyda cynigion ar gyfer sefydlu Partneriaeth Tirlun Cenedlaethol Cymru. Byddai'r sefydliad yma yn anelu i wella cydweithio, rhannu gwybodaeth ac arfer da a chreu cysylltiadau rhwng y tirluniau a sectorau eraill.

6.0 RHEOLWR DATBLYGU CYMRU - Y GYMDEITHAS AHNE

- 6.1 Cam arall sydd wedi ei gymryd ar lefel genedlaethol yw fod y Gymdeithas dros AHNE (sydd yn gweithredu dros Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon) wedi penodi Rheolwr Datblygu Cymru. Pwrpas y swydd fydd cynorthwyo Partneriaethau AHNE i weithredu blaenoriaethau Cydnerth a Gwerthfawr Llywodraeth Cymru.

- 6.2 Ian Rappel, oedd yn arfer gweithio i Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent sydd wedi ei benodi i'r swydd hon (am gyfnod o 2 flynedd).

7.0 ARGYMHELLIAD

- 7.1 **Derbyn yr wybodaeth**